



VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWETHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TYDFUL



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TYDFUL



Rhondda Cynon Taf



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFADAETH GADARN | DIFODDOL SICR



GIG
CYMRU
NHS
WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf
University Health Board

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf

Cyd-ddatganiad o Fwriad Strategol Cwm Taf: Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion ag Anableddau Dysgu (sy'n cynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) a'u teuluoedd.

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyd-ddatganiad Comisiynu Cwm Taf ar gyfer plant, pobl ifanc, oedolion ag anableddau dysgu (sy'n cynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) a'u teuluoedd wedi'i ystyried yn erbyn Deddf Cydraddoldeb 2010, a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn arbennig, a ddaeth i rym ar 5 Ebrill 2011.

Fel rhan o'r ddyletswydd hon, mae gofyn i gyrrff sector cyhoeddus Cymru gyhoeddi asesiad o effaith er mwyn bod yn dryloyw ac atebol h.y. ystyried yr effeithiau mae eu penderfyniadau, polisiau neu wasanaethau'n eu cael ar bobl ar sail eu rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadaedd rhywiol, crefydd neu gred, ac oedran, gan gynnwys materion yn ymwneud ag ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Mae'r rhain wedi'u dosbarthu fel 'nodweddion gwarchoddedig'. Er nad yw amddifadedd yn 'nodwedd warchoddedig' mae'n berthnasol gan fod pobl o grwpiau gwarchoddedig yn fwy tebygol o'i brofi ac oherwydd bod yna lefelau mor uchel o amddifadedd yn ein cymuned leol. Mae 36% o boblogaeth Cwm Taf yn byw mewn ardaloedd sydd ymysg yr 20% o ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru.

Mae'r angen i gasglu tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ac ar gyfer ymgysylltu'n golygu bod yr asesiad o effaith mwyaf effeithiol ac effeithlon yn cael ei gynnal fel rhan annatod o ddatblygu polisi neu ailgynllunio gwasanaethau, gyda'r asesiad yn cael ei gynnal ar y cychwyn. Bydd y rhain yn helpu i ddileu gwahaniaethu, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, yn datblygu dealltwriaeth well o'r gymuned, ac yn targedu adnoddau'n effeithiol.

Gwasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu (sy'n cynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) a'u teuluoedd.

Mae ymchwil yn dangos bod pobl ag anableddau dysgu am gael bywydau arferol a gwneud y pethau mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu cymryd yn ganiataol.

Maent am astudio mewn coleg, cael swydd, cael perthnasoedd a ffrindiau a mwynhau gweithgareddau hamdden a chymdeithasol.

Y brif thema sydd wedi bod yn rhan o bolisi cenedlaethol a chanllawiau arfer da ers bron i 40 mlynedd yw'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl i gael bywydau cyffredin iach ac ystyrlon.

'Mae'r cysyniad bod gan bobl ag anabledd dysgu yr un hawliau a dyheadau â'r rhai sydd heb anableddau dysgu yn sylfaen y dylai comisiynwyr a darparwyr ei defnyddio i ddatblygu gwasanaethau sy'n atal yr angen am ofal cymdeithasol.'

Roedd y *Datganiad ar Bolisi ac Arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu* yn amlinellu'r hawliau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu sy'n byw yng Nghymru:

'Mae pob person ag anabledd dysgu'n ddinasyddion llawn, cyfartal o ran statws a gwerth i ddinasyddion eraill yr un oed. Mae'r un hawliau ganddynt i:

- Fyw bywydau iach, cynhyrchiol ac annibynnol gyda thriniaeth a chymorth priodol ac ymatebol i ddatblygu eu potensial mwyaf posib
- Bod yn unigolion a phenderfynu ar faterion bob dydd a materion allweddol i'w bywydau drostynt eu hunain gan ymuno ym mhob proses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, gyda chynghor a chymorth priodol ac ymatebol lle bo angen
- Byw eu bywydau o fewn eu cymuned, gan gynnal y rhwymau a'r cysylltiadau teuluol a chymdeithasol sy'n bwysig iddynt
- Cael cymorth y cymunedau y maent yn rhan ohonynt a mynediad at wasanaethau cyffredinol ac arbenigol sy'n ymatebol i'w hanghenion, eu hamgylchiadau a'u dewisiadau unigol.'

Adlewyrchwyd hyn yng nghanllawiau comisiynu 2011 a oedd yn nodi canllawiau ar gyfer comisiynu gwasanaethau cynaliadwy sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac yn annog comisiynwyr i feddwl yn hirdymor am yr hyn sydd ei angen ar gyfer y boblogaeth anabledd dysgu yng Nghymru.

Hyd yn hyn, mae'r rhain yn parhau i ffurfio sylfeini canolog darpariaeth anableddau dysgu ledled Cymru ac felly nid yw'r polisi wedi cael ei adolygu na'i ddiweddarau. Felly, y polisi a'r ddeddfwriaeth fwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar bobl ag anableddau dysgu ledled Cymru dros y blynyddoedd diwethaf yw Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae gan y Ddeddf hon botensial sylweddol i wella profiadau pobl ag anableddau dysgu o wasanaethau gan ei bod yn darparu un fframwaith deddfwriaethol ar gyfer darparu gwasanaethau ar draws yr ystodau oedran. Mae hyn yn golygu y dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid ystyried llesiant unigolion ar bob cam o'u datblygiad, yn cynnwys trwy'r cam 'pontio' traddodiadol rhwng gwasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion, a thrwy ddarparu gofal a chymorth i bobl hyn. Mae hefyd yn deddfu ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth ac ar gyfer cynnal asesiadau o anghenion seiliedig ar gryfderau sy'n ystyried pob agwedd ar lesiant yn ôl diffiniad y Ddeddf. Mae'n darparu ar gyfer gofalwyr drwy gynnwys hawl i'w

hanghenion gael eu hasesu'n annibynnol y tu hwnt i'r sawl maent yn gofalu amdano.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys Datganiad Llesiant Cenedlaethol sy'n disgrifio'r canlyniadau llesiant y dylai pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, eu disgwyl i fyw bywydau llawn. Mae'r dull o gomisiynu bywydau da'n ceisio cefnogi pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd i brofi'r canlyniadau hyn.

Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i'r dull o gomisiynu bywydau da:

- Cynllunio gwasanaethau o'r unigolyn i fyny, ond gyda'u perthnasoedd yn flaenllaw hefyd.
- Cynllunio gwasanaethau mewn modd sy'n adlewyrchu, a chynnal neu gryfhau, asedau'r unigolyn a'i berthnasoedd.
- O ganlyniad, cynnwys yr unigolyn a'i berthnasoedd yn llawn wrth gynllunio'r gwasanaethau.
- Cynllunio gwasanaethau mewn modd sy'n adlewyrchu arferion gorau mewn proffesiynau cysylltiedig.
- O ganlyniad, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, ymreolaeth, dewis, parch, a rolau sy'n cael eu gwerthfawrogi i'r unigolyn, yn ogystal â sgiliau a thechnegau arbenigol, effeithiol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi cydweithio i ddatblygu Cyd-ddatganiad o Fwriad Strategol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc, ac Oedolion ag Anableddau Dysgu (sy'n cynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) a'u teuluoedd sy'n disgrifio ymrwymiad a rennir i ddarparu model newydd o wasanaethau iechyd a chymdeithasol integredig.

2.Y WELEDIGAETH A'R MODEL GWASANAETH

Gyda'n gilydd, rydym wedi mabwysiadu datganiad gweledigaeth gyffredin ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl ag anabledd dysgu ac awtistiaeth:

Ein gweledigaeth yw y bydd pobl ag anabledd dysgu'n gallu cael gafael ar wasanaethau modern sy'n hybu eu hannibyniaeth, yn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau hirdymor ac yn pwysleisio dewis a rheolaeth. Y bydd plant, pobl ifanc ac oedolion ag anabledd dysgu (yn cynnwys rhai sydd ag awtistiaeth ac anghenion cymhleth) yn gallu cael gafael ar wasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n galluogi canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n lleihau'r posibilrwydd o anghenion a risgiau'n gwaethygu drwy hybu ymyrraeth gynnar, atal, mwy o annibyniaeth a'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd.

Mae'r model rydym wedi'i greu ar gyfer darparu gwasanaethau yn un deinamig sy'n ymateb i anghenion newidiol pobl, yn darparu ymyriadau a chymorth wedi'u targedu pan fo angen, yn galluogi unigolion i wneud cynnydd, ac yn cefnogi pobl drwy ddarparu mynediad at wasanaethau cyffredinol a chymorth cymunedol.

Gwasanaethau Cyffredinol

Nid yw'r rhan fwyaf o bobl ag anableddau dysgu angen gofal cymdeithasol ac felly maent yn byw yn y gymuned heb fawr o gymorth. Mae pobl ag anableddau dysgu mewn mwy o berygl o gael llawer o gyflyrau iechyd corfforol a meddyliol, o gael llai o gyfleoedd gweithio ac maent yn profi amddifadedd cymdeithasol yn aml. Mae cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fyw bywydau iach ac ystyrlon ac atal yr angen am ddarpariaeth gwasanaethau mwy dwys yn gofyn am wasanaethau cyffredinol (e.e. gwasanaethau hamdden, meddygon teulu, colegau ac ati) i fod yn hygyrch. Mae sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch yn golygu bod angen gwneud 'addasiadau rhesymol' i'r gwasanaeth.

Gwasanaethau Cyffredinol a Mwy

Ar gyfartaledd, mae iechyd pobl ag anableddau'n waeth na phobl eraill ac maent yn marw'n iau. Dylai pobl ag anableddau dysgu allu cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd sylfaenol, cymunedol ac eilaidd yn yr un ffordd â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae pobl ag anableddau dysgu angen cymorth ar hyd eu hoes i ddeall a mynegi eu hanghenion o ran iechyd a llesiant, ac i gael gafael ar wybodaeth iechyd gyda chymorth a chyfleoedd i fyw bywydau iach.

Ymyrraeth gynnar

Gall nodi angen cyn gynted â phosibl a darparu'r wybodaeth, cyngor, cymorth, ac ymyrraeth briodol lle bo angen, oedi neu atal anghenion rhag gwaethygu sy'n gallu bod yn gostus yn emosiynol, cymdeithasol ac economaidd. Mae'n rhaid i bartneriaid allu ymateb i anghenion lefel isel yn gyson ac ar y cyd.

Ymyrraeth ddwys

Un gofyniad pwysig gan wasanaethau yw eu gallu i ymdrin ag argyfyngau; eu rheoli pan maent yn digwydd ac i adfer y sefyllfa'n raddol i un lle y gellir mynd i'r afael â'r problemau dros yr hirdymor. Mae hyn yn gofyn am gymorth arbenigol gan amrywiaeth o wasanaethau, ar draws gwasanaethau plant, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a thimau anableddau dysgu cymunedol arbenigol. Dylid seilio cymorth ar anghenion yr unigolyn drwy fodel 'Gofal Cydweithredol'. Dylai unigolion ddisgwyl dilyniant o ofal a chymorth drwy gydweithrediad agos y gwasanaethau/asiantaethau.

Ymyrraeth arbenigol

Dylai pawb sydd ag anghenion gofal a chymorth cymwys gael cynllun gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o gynlluniau eraill lle bo'n briodol. Dylent fod wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynllun a chael copi ohono. Dylai cynlluniau ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r unigolyn. Yn achos plant a phobl ifanc hyd at 25 oed sydd ag angen addysgol arbennig (AAA), dylai hyn fod ar ffurf cynllun Addysg, Iechyd a Gofal. Drwy ddefnydd cynyddol o daliadau uniongyrchol dylai pobl allu cael gafael ar weithgareddau a gwasanaethau yn y gymuned; dylent gael cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd, cael profiadau newydd, cael annibyniaeth a chyflogaeth a chael cefnogaeth i ddatblygu a chynnal perthynas. Dylai pobl allu defnyddio amrywiaeth o wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion diwylliannol a/neu ysbrydol.

3.EIN BLAENORIAETHAU COMISIYNU

Mae strategaeth Cwm Taf ar gyfer gwasanaethau anabledau dysgu yn canolbwyntio ar y prif negeseuon canlynol:

- Defnyddio mwy o wasanaethau cyffredinol
- Mwy o ymyrraeth gynnar, atal, gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Datblygu cymorth yn y gymuned a datblygu annibyniaeth pobl
- Cadw pobl yn eu cartrefi eu hunain
- Galluogi pobl i fyw bywydau llawn a chyflawni eu potensial
- Cadw pobl yn ddiogel
- Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau

Y canlyniadau rydym am eu cyflawni

Diffiniad o Fwyd Da

*Rhywle i fyw, rhywbeth i'w wneud, rhywun i'w garu
(cartref, galwedigaeth, perthnasoedd)*

Y canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd:

- Y byddant yn gallu cael gafael ar wasanaethau modern sy'n hybu ymdeimlad o berthyn a chynhwysiant yn eu cymuned leol.
- Bod gwasanaethau'n hyrwyddo annibyniaeth, yn lleihau dibyniaeth ac yn pwysleisio dewis a rheolaeth.
- Bod plant, pobl ifanc ac oedolion ag anabledd dysgu'n gallu cael gafael ar wasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n galluogi canlyniadau llesiant sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.
- Bod plant, pobl ifanc ac oedolion ag anabledd dysgu'n gallu cael gafael ar wasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n lleihau'r posibilrwydd o anghenion a risgiau'n gwaethygu

Sut fydd hynny'n teimlo i bobl ag anabledd dysgu yng Nghwm Taf (yn seiliedig ar fframwaith canlyniadau Llywodraeth Cymru)

- Mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried.
- Mae gen i reolaeth dros fy mywyd bob dydd.
- Rwy'n hapus ac yn cael gwneud y pethau sy'n fy ngwneud i'n hapus.
- Rwy'n ddiogel ac wedi fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i fi.
- Rwy'n perthyn.
- Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol ac yn cael bod gyda'r bobl rwy'n eu dewis.
- Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi i sicrhau fy llesiant.

Y defnydd cyfredol o wasanaethau

Ni fydd cyfran fawr o bobl ag anableddau dysgu angen gwasanaethau gofal cymdeithasol na gwasanaethau iechyd arbenigol. Fel gweddill y boblogaeth byddant yn dod i gysylltiad â gwasanaethau cyffredinol a fydd yn fwy hygyrch iddynt os oes addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud.

Mae meddygfeydd meddygon teulu ledled Cwm Taf yn adnabod tua 10% o'r boblogaeth ragweledig o blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu. Mae data a gasglwyd gan dimau plant anabl yn awgrymu bod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn adnabod bron pob plentyn ag anabledd dysgu fel plant. Fodd bynnag, ar ôl i blant adael yr ysgol mae yna ostyngiad yn nifer y bobl sy'n hysbys ac sy'n derbyn gofal cymdeithasol i oedolion.

Mae 23% o'r boblogaeth ragweledig o oedolion ag anableddau dysgu'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol ledled Cwm Taf. Cafwyd cynnydd yn nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n derbyn gwasanaethau ers 2014. Mae'n anodd cyfrif yr union gynnydd gan na chasglwyd data'n gyson dros y blynyddoedd.

O ran y mathau o wasanaethau a ddefnyddir, gwyddom nad oes digon yn defnyddio gwasanaethau cyffredinol. Mae gormod o bobl yn derbyn gwasanaethau preswyl a gwasanaethau gofal dydd traddodiadol. Nid oes digon o bobl yn cael cymorth i barhau i fyw yn eu cymunedau lleol. Nid oes digon o bobl yn defnyddio gwasanaethau addysg a chyflogaeth. Nid oes digon o blant ac oedolion yn manteisio ar gymorth hyblyg drwy daliadau uniongyrchol.

Adnoddau: Bodloni galw'r dyfodol a sicrhau cynaliadwyedd ariannol

Ar hyn o bryd, y patrwm gwario yw targedu adnoddau at y rhai sydd eu hangen fwyaf. Yn 2015/2016, gwariodd Merthyr tua 35% o gyllideb gyffredinol oedolion ag anableddau dysgu ar ofal preswyl a/neu nyrsio a 38% ar fyw â chymorth. Gwariodd Rhondda Cynon Taf 17% ar ofal preswyl a/neu nyrsio a

50% ar fyw â chymorth. Gwariodd Rhondda Cynon Taf 5% yn unig ar daliadau uniongyrchol gyda Merthyr yn gwario 1% yn unig. Dim ond 3% o'r gyllideb gyffredinol a wariodd y ddau awdurdod lleol ar asesu a rheoli gofal. Ym maes iechyd mae yna wariant cynyddol ar ofal iechyd parhaus ac nid yw'r gwariant ar leoliadau aciwt wedi lleihau.

Y risg o dargedu adnoddau at y rhai sydd mewn angen mwyaf yw nad yw'n lleihau galw cynyddol na'n darparu ateb cynaliadwy er ei fod yn bodloni galw tymor byr. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cydnabod hyn. Mae'n galw am ddatblygu atebion creadigol fel dulliau cymunedol seiliedig ar asedau sy'n galluogi unigolion i asesu gwasanaethau prif ffrwd a chyffredinol drwy addasiadau rhesymol priodol ac opsiynau cymorth arloesol. Bydd angen buddsoddi llai mewn darpariaeth breswyl a mwy mewn taliadau uniongyrchol i gyflawni hyn. Mae asesu a chynllunio gofal a chymorth yn faes arall sydd angen rhagor o fuddsoddiad fel y gall staff dreulio amser yn helpu'r rhai sydd angen gofal a chymorth i ddod o hyd i atebion cymunedol.

Yng Nghwm Taf, mae gwasanaethau anabledd dysgu gofal eilaidd yn cael eu comisiynu gan rwydwaith rhanbarthol a reolir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae comisiynydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn cynnal adolygiad i weld beth yw sefyllfa sylfaenol gyfredol y gwasanaeth sy'n berthnasol i'r boblogaeth leol. Ar ôl ei gwblhau, bydd yr adolygiad hwn yn sail i'r gwaith comisiynu a amlinellir yn y datganiad o fwriad hwn.

Bydd mwy o dryloywder a rhannu gwybodaeth o ran niferoedd a gwariant ar draws yr holl wasanaethau'n cefnogi trefniadau rheoli galw'r dyfodol. Bydd hefyd yn sail i benderfyniadau am fuddsoddi i hwyluso canlyniadau cynaliadwy i bobl yn effeithiol ac effeithlon. Bydd crynhoi adnoddau a chomisiynu gwasanaethau arbenigol ar lefel ranbarthol yn helpu i wneud arbedion maint.

Cynhaliwyd Asesiad o Anghenion i lywio datblygiad y Datganiad o Fwriad. Mae'r wybodaeth ganlynol hefyd yn berthnasol mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig.

4. DEALL Y PROFFIL DEMOGRAFFIG

Mae iechyd a gofal cymdeithasol gwell wedi golygu bob pobl ag anabledd dysgu yn byw'n hirach nag o'r blaen. Fodd bynnag, mae plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn ag anableddau dysgu mewn mwy o berygl o brofi anawsterau iechyd corfforol. Mae pobl ag anableddau dysgu'n marw'n iau ac mae eu hiechyd yn waeth na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae'n bosibl osgoi'r gwahaniaethau hyn i raddau helaeth ac felly maent yn anghydraddoldebau iechyd (Emerson et al, 2011). Mae'n bwysig bod pob person hŷn yn gofalu am ei hun a chadw'n iach i geisio lleihau salwch a chlefydau sy'n gysylltiedig ag oedran fel strôc, clefyd y galon a diabetes. Efallai y bydd pobl hŷn ag anabledd dysgu angen cymorth ychwanegol i wneud hyn.

Yn 2010, amlygodd adolygiad o anghydraddoldebau iechyd pobl ag anableddau dysgu yn y DU wahaniaethau mawr rhwng iechyd cyffredinol pobl ag anableddau dysgu o gymharu â'u cyfoedion nad oeddynt yn anabl. Gwelwyd bod anghydraddoldebau iechyd yn codi mewn pum maes allweddol posibl. Y rhain oedd:

- Penderfynyddion cymdeithasol fel tlodi, amodau tai gwael, a diweithdra.
- Mwy o berygl yn codi o ffactorau genetig a biolegol sy'n gysylltiedig ag anabledd dysgu.
- Anawsterau cyfathrebu a lefelau is o lythrennedd iechyd.
- Risgiau ac ymddygiad iechyd personol.
- Anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau, yn cynnwys prinder gwasanaethau, dealltwriaeth wael o anghenion yn enwedig cyfathrebu, a gorgysgodi diagnostig o bosibl lle mae'r symptomau corfforol yn cael eu gweld fel problemau sy'n deillio o'u hanabledd dysgu.

Ymddygiad Heriol

Mae ymddygiad heriol yn cychwyn mewn plentyndod neu pan mae'r person yn unigolyn ifanc fel rheol a bydd yn digwydd yn aml iawn os na cheir ymyrraeth effeithiol; mae tua 30% o blant ifanc (0-3 oed) a 10-15% o oedolion ag anableddau dysgu'n dangos anawsterau ymddygiad. Ni fydd gan yr holl bobl hyn anabledd cymedrol, difrifol na dwys ac felly ni fydd pawb ohonynt yn derbyn gwasanaethau anabledd dysgu. Bydd llawer o'r bobl hyn mewn perygl o droseddu ac yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau neu wasanaethau iechyd meddwl.

Rhywedd

Nodwyd bod patrymau defnyddio dulliau atal cenhedlu menywod ag anableddau dysgu yn wahanol iawn i fenywod y boblogaeth gyffredinol, gyda mwy o ddefnydd o ddulliau hirdymor fel pigiad, y bilsen, dyfais yn y groth neu ddiffrwythloni a llawer llai o ddefnydd o ddulliau rhwystrol. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw menywod ag anableddau dysgu'n cael digon o wybodaeth nac yn cael eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am ddulliau atal cenhedlu. Ymhellach, mae yna dystiolaeth yn dangos bod meddygon yn rhoi dulliau atal cenhedlu ar bresgripsiwn i fenywod pan nad ydynt yn cael rhyw neu pan maent wedi mynd heibio oedran cael plant (McCarthy, 2009).

Mae astudiaethau mewn gwledydd eraill wedi dangos bod menywod ag anableddau dysgu, a menywod â syndrom Down yn arbennig, yn dueddol o gael y menopos yn gynt na menywod eraill. Dangosodd astudiaeth ddiweddar yn y DU fod menywod ag anableddau dysgu yn cael profiadau tebyg o symptomau'r menopos â menywod eraill ond nad oeddynt yn deall y menopos a'r misglwyf cystal. (Willis et al, 2011).

Oedran

Rhagwelir cynnydd bychan yn unig yn nifer y plant rhwng 0 a 17 oed ag anawsterau dysgu. Disgwylir i nifer y rhai ag anableddau dysgu difrifol neu ddwys gynyddu seithwaith erbyn 2025.

Tabl 1: Plant 0-17 oed y rhagwelir y bydd ganddynt anhawster dysgu, fesul oedran, hyd at 2024

| | 2016 | 2020 | 2025 | % newid 2016-2025 | Newid a ragwelir gwirioneddol mewn niferoedd 2016-2025 |
|--|-------|-------|-------|-------------------|--|
| Plant 0-17 oed ag anhawster dysgu cymedrol | 2,245 | 2,283 | 2,282 | 1.65 | 37 |
| Plant 0-17 oed ag anhawster dysgu difrifol | 290 | 295 | 295 | 1.72 | 5 |
| Plant 0-17 oed ag anhawster dysgu dwys | 71 | 73 | 73 | 2.82 | 2 |

Ffynhonnell: Daffodil. Efallai na fydd y niferoedd yn dod i gyfanswm synhwyrol gan fod y rhifau wedi'u talgrynnu

Mae'r rhagolygon ar gyfer y rhai 18 oed a throsodd ag anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol yn dangos gostyngiad cyffredinol o 20. Fodd bynnag, fel mae'r ffigurau cyffredinol yn awgrymu, mae disgwyl i nifer y bobl 75 oed a throsodd ag anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol gynyddu. Mae hwn yn ffigur cymharol isel ond mae'r unigolion hyn yn fwy tebygol o fod angen rhywfaint o gymorth. Mae hefyd yn werth nodi'r 19 o bobl ychwanegol y rhagwelir y bydd ganddynt anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol yn y grŵp oedran 55-64 oed, unwaith eto'n dangos nad yw'r galw am rywffaint o gymorth yn debygol o leihau yn y tymor canolig.

Tabl 2: Pobl yng Nghwm Taf 18 oed a throsodd yr amcangyfrifir bod ganddynt anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol

| | 2016 | 2020 | 2025 | % newid 2016-2025 | Newid a ragwelir gwirioneddol mewn niferoedd 2016-2025 |
|---------------|------|------|------|-------------------|--|
| 18-24 | 166 | 154 | 149 | -10.24 | -17 |
| 25-34 | 205 | 205 | 197 | -3.90 | -8 |
| 35-44 | 217 | 219 | 233 | 7.37 | 16 |
| 45-54 | 219 | 205 | 184 | -15.98 | -35 |
| 55-64 | 176 | 188 | 195 | 10.80 | 19 |
| 65-74 | 111 | 112 | 109 | -1.80 | -2 |
| 75-84 | 37 | 41 | 49 | 32.43 | 12 |
| 85 a throsodd | 12 | 14 | 17 | 41.67 | 5 |

| | | | | | |
|----------|-------|-------|-------|-------|-----|
| Cyfanswm | 1,143 | 1,138 | 1,133 | -0.88 | -20 |
|----------|-------|-------|-------|-------|-----|

Ffynhonnell: Daffodil. Efallai na fydd y niferoedd yn dod i gyfanswm synhwyrol gan fod y rhifau wedi'u talgrynnu

Rhagwelir bod gan 2,269 o oedolion a 726 o blant yng Nghwm Taf gyflwr ar y sbectwm awtistiaeth. Bydd gan tua 50% ohonynt anabledd dysgu hefyd.

Tabl 3: Pobl yng Nghwm Taf y rhagwelir bod ganddynt anabledd dysgu (18 oed a throsodd)

| | 2016 | 2020 | 2025 | % newid 2016-2025 | Newid a ragwelir gwirioneddol mewn niferoedd 2016-2025 |
|----------------------------|--------------|--------------|--------------|-------------------|--|
| 18-24 | 718 | 663 | 633 | -11.84 | -85 |
| 25-34 | 953 | 955 | 917 | -3.78 | -36 |
| 35-44 | 862 | 872 | 925 | 7.31 | 63 |
| 45-54 | 973 | 913 | 816 | -16.14 | -157 |
| 55-64 | 810 | 865 | 904 | 11.60 | 94 |
| 65-74 | 682 | 696 | 673 | -1.32 | -9 |
| 75-84 | 354 | 390 | 469 | 32.49 | 115 |
| 85 and over | 130 | 148 | 180 | 38.46 | 50 |
| Cyfanswm poblogaeth | 5,482 | 5,502 | 5,517 | 0.64 | 35 |

Ffynhonnell: Daffodil. Efallai na fydd y niferoedd yn dod i gyfanswm synhwyrol gan fod y rhifau wedi'u talgrynnu

Yn gyffredinol, mae disgwyl i boblogaeth pobl ag anableddau dysgu yng Nghwm Taf gynyddu 0.64% yn unig. Mae yna ostyngiad sylweddol yn nifer y bobl rhwng 18 a 34 oed y rhagwelir y bydd ganddynt anabledd dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu'r newidiadau disgwyliedig o fewn grwpiau penodol sy'n debygol o effeithio ar alw am wasanaethau. Y newid a ragwelir mwyaf nodedig yw bod disgwyl i nifer y bobl 75 oed a throsodd ag anabledd dysgu gynyddu'n sylweddol. Rhagwelir y bydd yna gynnydd sylweddol yn y grŵp oedran 55-64 oed hefyd, sy'n awgrymu y bydd y galw ymysg grwpiau hŷn yn parhau ar ôl y 10 mlynedd nesaf.

lechyd

Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl ag anableddau dysgu sy'n marw o ganser yn y DU yn is nag ymysg y boblogaeth yn gyffredinol (12-18% o gymharu â 26%), er bod ganddynt gyfraddau uwch o ganser gastroberfeddol ar gyfartaledd (48-59% o gymharu â 25% o farwolaethau canser). Mae pobl ag anableddau dysgu sydd â chanser yn llai tebygol o gael gwybod am eu diagnosis a phrognosis, o gael rhywbeth i leddfu poen, o fod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal ac maent yn llai tebygol o dderbyn gofal lliniarol.

Mae clefyd coronaidd y galon yn un o brif achosion marwolaethau ymysg pobl ag anableddau dysgu (14-20%).

Clefyd resbiradol yw prif achos marwolaethau ymysg pobl ag anableddau dysgu (46-52%) gyda chyfraddau llawer uwch na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae oedolion ag anableddau dysgu 2.6 gwaith yn fwy tebygol o farw o asthma na'r rhai heb anableddau dysgu.

Mae nifer yr achosion o epilepsi ym mhoblogaeth Prydain rhwng 0.5% a 1% ac mae'r ffigur hwn yn codi i 15% ymysg pobl ag anabledd dysgu cymedrol. Mae'r ffigur yn codi i 30% ymysg y rhai ag anabledd difrifol a dwys, gyda thrawiadau yn rhai niferus ac yn gallu gwrthsefyll triniaeth gyffuriau yn aml.

Anableddau Corfforol

Mae pobl ag anableddau dysgu 10 gwaith yn fwy tebygol o gael problem ddifrifol gyda'u golwg na phobl eraill. Mae 6 o bob 10 unigolyn ag anabledd dysgu angen sbectol ac angen cymorth i ddod yn gyfarwydd â nhw'n aml.

Mae pobl sy'n byw'n annibynnol neu gyda theulu'n llawer llai tebygol o fod wedi cael prawf golwg diweddar na phobl sy'n byw gyda staff cymorth cyflogedig.

Mae'r Sefydliad ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu yn datgan bod tua 40% o oedolion ag anabledd dysgu'n profi anawsterau colli clyw cymedrol neu ddifrifol.

Mewn rhai achosion gall colli clyw ddwysáu effeithiau anabledd dysgu unigolyn, gan na fydd yn cael ei adnabod neu ei ddiagnosio o bosibl, gyda'r ymddygiad sy'n gysylltiedig â cholli clyw yn cael ei ystyried yn rhan o'r anabledd dysgu yn lle hynny.

Gall anawsterau clywed heb eu trin gyfrannu at oedi yn natblygiad lleferydd ac iaith, anawsterau dysgu, a phroblemau o ran cyfathrebu ag eraill, felly mae'n hanfodol cael diagnosis mor gynnar â phosibl, yn enwedig ar gyfer pobl a allai fod yn profi anawsterau yn y meysydd hyn eisoes.

Mae problemau clywed yn gyffredin iawn ymysg pobl â syndrom Down, ac, fel yn achos y boblogaeth yn gyffredinol, maent yn dod yn fwy tebygol ac yn fwy sylweddol wrth i bobl heneiddio.

Mae pobl ag anabledd ddwywaith fwy tebygol na phobl heb anabledd o fod heb fynediad i gar (Swyddfa Materion Anabledd 2009). Mae pobl anabl yn llai hyderus wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus hefyd yn sgil problemau mynediad corfforol ac agweddau staff (Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol 2012).

Iechyd Meddwl

Mae nifer yr achosion o broblemau iechyd meddwl ymysg pobl ag anableddau dysgu yn sylweddol uwch nag yn y boblogaeth yn gyffredinol.

Mae nifer yr achosion o anhwylderau seiciatrig yn 36% ymysg plant ag anableddau dysgu, o gymharu ag 8% ymysg plant heb anableddau dysgu.

Mae'r achosion o ddementia yn uwch ymysg oedolion hŷn ag anableddau dysgu o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol (22% o gymharu â 6% yn y grŵp oedran 65 oed a throsodd) ac maent yn dueddol o'i ddatblygu yn iau ac yn gyflymach. Mae pobl â syndrom Down mewn perygl uchel iawn o ddatblygu dementia, gydag oedran cychwyn 30-40 mlynedd yn iau na'r boblogaeth yn gyffredinol.

Ethnigrwydd

Mae gan Cwm Taf gynrychiolaeth is o grwpiau ethnig heblaw gwyn na Chymru'n gyffredinol. Fodd bynnag, mae yna bobl Bwylaidd, Portiwgeaidd a Tsiecaidd yn byw yn y gymuned leol a bydd angen ystyried eu heriau mynediad, o ran materion ieithyddol ac i ba raddau mae trafndiaeth ar gael.

Gall iaith fod yn rhwystr arall i bobl ag anableddau dysgu gael mynediad at drafniadaeth gyhoeddus a gwasanaethau'n gyffredinol. Gall greu rhwystrau i ddeall yn ystod diagnosis, triniaeth a'r broses o wella hefyd. Efallai bydd defnyddio gwasanaethau cyfieithu'n briodol ac mae yna bolisïau cefnogol ar waith mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn.

Er nad oes tystiolaeth benodol ar gael i edrych ar ethnigrwydd pobl ag anabledd dysgu yng Nghwm Taf ar y pwynt hwn mae'n werth nodi bod tystiolaeth yn dangos bod pobl o wahanol grwpiau ethnig yn ymateb yn wahanol i ymgyrchoedd hybu iechyd nad ydynt yn sensitif i iaith na gwahaniaethau diwylliannol o bosibl. Wrth gynllunio a darparu gweithgareddau iechyd a lleisiant, mae angen i ddarparwyr ystyried y materion hyn. Fodd bynnag, mae llawer o grwpiau ethnig yn cydnabod pwysigrwydd rhwydweithiau cymorth teuluoedd a chymunedau a fydd yn ddefnyddiol wrth feithrin gallu'r gymuned.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

Mae llawer o bobl ag anabledd dysgu'n dweud bod perthnasoedd yn bwysig iddynt – ond dim ond 3% o bobl ag anabledd dysgu sy'n byw fel cwpl, o gymharu â 70% o'r boblogaeth oedolion yn gyffredinol.

Mae sawl rhwystr yn ei gwneud hi'n anodd i bobl ag anabledd dysgu gael perthnasoedd personol a rhywiol:

- Mae'n fwy anodd cyfarfod pobl.
- Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn fwy cyffredin.
- Mae'r cydbwysedd rhwng risg a hawliau o ran pobl ag anabledd dysgu yn cael perthynas agos neu rywiol yn aml yn cael ei gam-ystumio tuag at gyfyngu ar eu dewisiadau, yng nghartref y teulu ac mewn trefniadau byw eraill.

Mae'r agweddau cymdeithasol hyn yn gyfyngol, sy'n golygu nad yw pobl ag anabledd dysgu'n cael y rhyddid na'r preifatrwydd i gael perthynas agos neu rywiol yn aml.

Mae Mencap wedi nodi beth sydd ei angen i sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu (perthnasol i bobl sydd â'r gallu i gydsynio) yn gallu datblygu perthynas agos gadarnhaol, gwybodus, iach a diogel, sef:

- Cymorth i gyfarfod pobl eraill a ffurfio perthynas
- Gallu derbyn addysg rhyw hygyrch o ansawdd uchel
- Y cyfle i fynegi eu rhywioldeb a chael perthynas agos
- Yr hawl a'r dymuniad i gael perthynas rywiol agos wedi'i gydbwysu'n erbyn unrhyw risg sy'n ymwneud â diogelwch a chamdriniaeth

Crefydd

Mae yna gynrychiolaeth is ym mhob grŵp crefyddol yng Nghwm Taf nag sydd yng Nghymru'n gyffredinol. Dywedodd cyfrannau uwch na'r cyfartaledd o'r boblogaeth nad oedd ganddynt crefydd o gwbl.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwasanaethau'n ystyried anghenion diwylliannol. Mae Gwasanaethau Eiriolaeth Iechyd Meddwl wedi datblygu canllaw i faterion diwylliannol (wedi'i gomisiynu'n rhannol gan y Bwrdd Iechyd).

Rhywioldeb a thrawsrywedd

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'r ymchwil wedi awgrymu cysylltiad posibl rhwng aflonyddu ac iechyd meddwl gwael. Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol efallai yn fwy tebygol na grwpiau eraill i wynebu gelyniaeth a chamddealltwriaeth, ac yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael. (How Fair is Britain?). Mae gwaith ymchwil diweddar yn edrych ar iechyd meddwl a llesiant emosiynol pobl drawsryweddol wedi canfod bod cyfraddau salwch meddwl cyfredol ac a gafodd ei ddiagnosisio'n flaenorol yn uchel.

Canfu adroddiad Isolation to Integration fod dynion hoyw a lesbiaid mewn mwy o berygl o fod yn unig ac ynysig wrth iddynt heneiddio gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn byw ar eu pen eu hunain ac nad oes ganddynt gymaint o gysylltiad â'u teulu.

Gall pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol ag anabledd dysgu wynebu 'gwahaniaethu dwbl', gyda'u hawliau rhywiol yn cael eu gwrthod ar sail eu hanabledd dysgu yn ogystal â'u cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd.

Mae gofynion Mencap, a nodwyd yn adran 3.5 uchod, yr un mor berthnasol i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Amddifadedd

Mae dros 40% o drigolion Merthyr Tudful a thros 30% o drigolion Rhondda Cynon Taf yn byw yn y bumed ardal â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae lefelau amddifadedd uchel yn amlwg ym mhob categori o'u cymharu â gweddill Cymru ac mae hyn yn effeithio ar fynediad i iechyd yn gyffredinol, a materion eraill fel trafnidiaeth, diweithdra a ffyniant.

Mae hyn yn effeithio ar ein hiechyd a'n llesiant o ystyried y cysylltiad rhwng amddifadedd a salwch, sy'n amlgu ei hun yn y ffaith fod disgwyliad oes yn fyrrach yma nag yng ngweddill Cymru. Mae disgwyliad oes yn codi ar draws Cwm Taf gyda lefelau amddifadedd uwch yng nghymunedau'r cymoedd, o gymharu ag ardaloedd â llai o amddifadedd ar hyd coridor yr M4.

Yn 2011, canfu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod cyfraddau cyflogaeth ar eu hisaf (12%) ymysg pobl ag anawsterau dysgu difrifol yn y DU.

Yn ôl y Sefydliad ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu, byddai dros 65% o bobl ag anableddau dysgu'n hoffi bod mewn swydd â thâl ond mae hyn yn groes i ystadegau 2010/11 sy'n dangos mai dim ond 6.6% o oedolion ag anableddau dysgu oedd mewn rhyw fath o swydd â thâl.

O'r rhai a oedd mewn swydd, roeddynt yn gweithio'n rhan-amser, gyda dynion yn fwy tebygol o weithio 30+ awr na menywod.

Gyrfaoedd

Mae dros hanner yr oedolion ag anabledd dysgu'n byw gyda'u teuluoedd. Hyd yn oed pan maent yn byw i ffwrdd o gartref y teulu, mae'n debygol bod eu gofawyr teuluol yn dal i'w cefnogi mewn nifer o ffyrdd ac yn wahanol i ofalwyr eraill, mae gofawyr teuluol pobl ag anableddau dysgu yn debygol o fod wedi bod yn gofalu am oes ac yn gofalu am ddegawdau. Efallai bod ganddynt sawl rôl ofalu wrth iddynt heneiddio hefyd.

Mae pobl ag anableddau dysgu sy'n parhau i fyw gyda'u teuluoedd nes eu bod yn ganol oed a hyn yn canfod eu hunain mewn rôl ofalu eu hunain wrth i'w rhieni heneiddio. Fel gofawyr eraill, mae pobl ag anableddau dysgu'n hapus i ofalu am eraill ac yn ymfalchïo yn yr hyn maent yn ei wneud. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhywfaint o gymorth arnynt, a chefnogaeth i wneud penderfyniadau am y math o ofalu a faint o ofalu maent yn ei wneud. Mae'n werth nodi bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi hawl gyfartal i ofalwyr gael eu hasesu. Dylid cynnal yr asesiad hwn yn y ffordd orau i ddiwallu anghenion unigolyn a chanolbwyntio ar beth sy'n bwysig iddo a sut y gall ddefnyddio ei gryfderau a'i adnoddau ei hun i wneud y pethau hynny.

Mae pobl ag anableddau'n byw'n hirach ac mae hyn yn creu pryder i'w rhieni a'u gofawyr o ran beth fydd yn digwydd iddynt pan fyddan nhw'n rhy hen i ofalu, yn cael argyfwng neu'n marw. I'r rhai nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd, mae gwasanaethau a chymorth wedi newid y tu hwnt i adnabyddiaeth o'r dyddiau pan roedd pobl yn cael dewis rhwng gadael eu perthynas mewn gofal sefydliadol neu fynd â nhw

gartref. Gallai cydweithio i greu gwasanaethau cyffredinol a chymunedol mwy effeithiol helpu i sicrhau bod cyngor a gwybodaeth ar gael yn haws y tu allan i wasanaethau ffurfiol ac annog gofalwyr hŷn i ddechrau datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer y dyfodol.

Datblygwyd Strategaeth Gofalwyr Cwm Taf, dogfen gynhwysfawr y cytunwyd arni'n ffurfiol ar gyfer y rhanbarth sy'n ymateb i'r materion mwyaf cyffredin a godwyd gan ofalwyr. Cliciwch ar y ddolen isod i weld y strategaeth

<http://cwmtaf.wales/how-we-work/plans-and-reports/cwm-taf-carers-strategy-2016-2019/>

Y Gymraeg

Yng Nghwm Taf, mae 12.3% o oedolion a 8.9% o blant yn gallu siarad Cymraeg. Mae cyfran y rhai sy'n gallu deall, siarad a/neu ysgrifennu Cymraeg yn amrywio o fewn hyn.

Mae *Mwy na Geiriau.....*, fframwaith strategol gwreiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a lansiwyd yn 2012, wedi arwain at nifer o welliannau sydd wedi helpu siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn eu mamiaith. Sicrhawyd hyn drwy wneud y defnydd gorau o'r sgiliau a'r adnoddau cyfredol ar draws ein GIG a gwasanaethau cymdeithasol.

Un o brif egwyddorion *Mwy na Geiriau....* yw'r Cynnig Rhagweithiol. Ystyr Cynnig Rhagweithiol yw darparu gwasanaeth Cymraeg heb i rywun ofyn amdano. Mae'n golygu newid diwylliant sy'n cymryd y cyfrifoldeb oddi ar y unigolyn ac yn rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr gwasanaethau a pheidio rhagdybio bod pob siaradwr Cymraeg yn siarad Saesneg beth bynnag.

Hawliau Dynol

Ar ei fwyaf sylfaenol, mae'r cynnig gofal a chymorth yn diogelu hawl pobl i fywyd o dan Erthygl 2 y Confensiwn Ewropeaidd drwy sicrhau bod eu hanghenion seicolegol mwyaf sylfaenol yn cael eu bodloni, fel bwyta, cymryd meddyginiaeth, codi yn y bore a mynd i'r gwely yn y nos. Ond i'r rhai sydd ei angen, a'r rhai sy'n rhannu eu bywydau gyda nhw, mae i ba raddau mae gofal a chymorth ar gael a'r ffordd y'u trefnwyd hefyd yn penderfynu a ydynt yn gallu mwynhau nifer o hawliau dynol eraill yn cynnwys peidio â chael eu trin yn annynol a diraddiol (o dan Erthygl 3 y Confensiwn) a'r hawl i gael parch at fywyd preifat a theuluol (o dan Erthygl 8).

Un elfen hanfodol o ran sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas yw bod darparwyr yn deall arwyddocâd deddfwriaeth hawliau dynol. Mae fframwaith cyfreithiol y ddeddf hawliau dynol yn ei gwneud hi'n ofynnol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, barchu urddas pobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Mae'r foeseg a'r gwerthoedd sy'n sail i arferion da ym maes gofal cymdeithasol, fel ymreolaeth, preifatrwydd ac urddas, yn ganolog i

ddeddfwriaeth hawliau dynol. Mae yna densiynau parhaus rhwng glynu at y gwerthoedd hyn a'r angen i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed. Er enghraifft, efallai fod rhywun ag anabledd dysgu am wneud rhywbeth sy'n peryglu ei hun neu eraill, ac mewn achos o'r fath byddai angen i weithwyr ystyried a oedd gan yr unigolyn alluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwn. Os felly, dylent geisio dod o hyd i ffordd i sicrhau diogelwch yr unigolyn gan barchu ei hawl i ddewis beth mae am ei wneud. Os nad oes gan yr unigolyn alluedd meddyliol, dylid ei asesu yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Er bod rhaid i ddarparwyr a chomisiynwyr yn ardal Cwm Taf gymryd cyfrifoldeb am gydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol a chydaddoldeb mae hyn yn cael ei orfodi drwy arolygu a rheoleiddio allanol hefyd.

4. STAFF A ALLAI GAEL EU HEFFEITHIO GAN Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG HYN

Mae gwaith dadansoddi a wnaed wrth ddatblygu'r Datganiad wedi dangos bod y rhan fwyaf o adnoddau partneriaid, yn cynnwys staff, yn canolbwyntio ar wasanaethau arbenigol, tra bod angen i ni ganolbwyntio mwy ar wasanaethau cymunedol, cyffredinol a chyffredinol a mwy yn y dyfodol.

Bydd angen i ni ystyried goblygiadau'r model gwasanaeth newydd ar gyfer ein staff. Os oes gofyn i staff symud neu weithio'n wahanol, e.e. fel rhan o drefniadau cyfuno gwasanaethau, cydnabyddir bod angen ystyried eu nodweddion a'u hamgylchiadau personol, yn enwedig os yw eu taith i'r gwaith yn anoddach neu os yw eu patrwm gwaith yn newid e.e. eu hoedran a'u hymrwymyiadau teuluol.

Mae yna bolisiâu newid sefydliadol priodol ar waith gan awdurdodau lleol a Bwrdd Iechyd y Brifysgol i reoli unrhyw newidiadau staff sydd eu hangen yn sgil y gwaith hwn.

5. YR YMARFER YMGYSYLLTU

Datblygwyd y datganiad drafft cychwynnol o fwriad strategol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion ag Anableddau Dysgu (yn cynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) a'u teuluoedd (y cyfeirir ato fel y Datganiad o hyn allan) mewn ymateb i'r hyn roedd defnyddwyr gwasanaethau, gofawyr a rhanddeiliaid eraill wedi'i ddweud wrthym yn flaenorol a chan gyfeirio at arferion da ac ymchwil o fannau eraill.

Bwriad y gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd yn 2017 oedd sicrhau ein bod wedi mynd i'r afael yn gywir â'r pethau a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym a bod y Datganiad yn canolbwyntio ar beth sy'n bwysig.

Dros gyfnod o 16 wythnos, rhwng 11 Mai a 31 Awst, cynhaliwyd nifer o sesiynau briffio staff, grwpiau ffocws rhanddeiliaid a sgysiau â defnyddwyr gwasanaethau ar draws y rhanbarth.

Sesiynau Briffio Rhanddeiliaid

Ar ddechrau'r broses ymgysylltu, creodd swyddogion y broses ymgysylltu ar draws y Bartneriaeth fap rhanddeiliaid cynhwysfawr (gweler atodiad 1) i sicrhau bod modd dosbarthu'r holl ddeunyddiau briffio'n eang a bod modd diweddarau a chynnwys staff gweithredol.

Trefnwyd grŵp ffocws i gefnogi gwaith ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau effeithiol ar 19 Mai. Trefnwyd y sesiwn ar gyfer staff (o bob rhan o'r gwasanaeth) a'r grŵp hunaneiriolaeth (Pobl yn Gyntaf) i ystyried y ffordd orau o ymgysylltu a chasglu barn yr amrywiaeth eang o bobl ag anableddau dysgu sydd â gwahanol lefelau o anghenion a sgiliau cyfathrebu. Canlyniad y sesiwn hon oedd sicrhau sgysiaau effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaethau am y cynllun a'i gynnwys.

Y grwpiau ffocws

| Grŵp Ffocws | Cyfranogwyr |
|--|---|
| Rhieni sy'n ofalwyr | 8 o gyfranogwyr |
| Staff y Cyngor y tu allan i Wasanaethau Cymdeithasol | 11 o gyfranogwyr: llyfrgelloedd, hamdden, addysg oedolion, gwasanaethau cwsmeriaid, llesiant cymunedol, canolfan gyswllt, ymgysylltu a chyfranogiad ieuencid, tai, uned drafnidiaeth integredig. |
| Iechyd Oedolion | 8 o gyfranogwyr: therapïau a gwyddorau iechyd, iechyd meddwl, anabledd dysgu, gofal sylfaenol, therapi galwedigaethol, cydgysylltydd gofalwyr, maetheg a dieteteg, camddefnyddio sylweddau, gofal a diogelwch cleifion, nyrsio ardal. |
| Iechyd Plant | 14 o gyfranogwyr: therapi galwedigaethol, therapydd lleferydd ac iaith, ffisiotherapydd, dietegydd, tîm niwroddatblygiad, pediatregydd, comisiynu, seiciatrydd, blynyddoedd cynnar, cynllunio, ymgysylltu a chyfranogiad. |
| Grwpiau Cymunedol Anabledd Dysgu | 9 o gyfranogwyr: Touch Trust, Rhondda Cynon Taf, Mencap, Y Ffatri Gelf, Autism for Children, Dewis, Viva |
| Grwpiau cymunedol ehangach | 7 o gyfranogwyr |

Roedd pob grŵp ffocws yn para dwy awr ac yn dilyn trefn debyg. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr gyflwyno eu hunain drwy ddweud pwy oedden nhw, beth oedd eu rôl ac am beth roedden nhw'n gyfrifol. Yna, treuliodd yr hwylusydd ddeng munud yn esbonio'r cyd-destun mewn perthynas â'r Ddeddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant a Datganiad o Fwriad Cwm Taf ar gyfer Anableddau Dysgu. Yna, gofynnwyd yr un cwestiynau i bob grŵp ffocws:

- Pa effaith mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi'i chael eisoes?
- Oes yna rywbeth yn tynnu'ch sylw yn arbennig yn y Datganiad o Fwriad?
- Pa bethau fyddech chi'n eu hoffi gwneud yn wahanol?
- Pa effaith fyddai'n ei chael?
- Beth fyddai ei angen i'w wneud yn wahanol?
- Sut fyddech chi'n hoffi i ni fwrw ymlaen â'r gwaith ymgysylltu?
- Pwy arall all ein helpu ni?
- Unrhyw adnoddau eraill a allai ein helpu ni?

Caniatawyd i'r trafodaethau lifo'n naturiol ac ni symudodd yr hwylusydd ymlaen i'r cwestiwn nesaf nes bod oedi naturiol yn y drafodaeth. Cafodd trafodaethau'r grwpiau ffocws eu recordio, trawsysgrifio a dadansoddwyd y data gan ddefnyddio Nvivo.

Canfyddiadau'r grwpiau ffocws

Mae'r canfyddiadau wedi'u grwpio o dan dair thema (Gwasanaethau Cyffredinol, Gwasanaethau Cyffredinol a Mwy, ac Ymyrraeth Gynnar) sy'n adlewyrchu'r model ar gyfer comisiynu bywyd cyffredin a ddisgrifiwyd yn y datganiad o fwriad.

Mae'r canfyddiadau hyn yn crynhoi'r prif faterion a godwyd. Mae esboniad manylach o'r drafodaeth ar gael ar gais.

Gwasanaethau Cyffredinol

- Mae yna gydberthynas rhwng teuluoedd yn cael profiad gwael o wasanaethau cyffredinol yn methu ymdopi ag aelod o'u teulu ag anableddau dysgu a'r casgliad mai gwasanaeth arbenigol yw'r unig ateb o ganlyniad.
- Mae yna ddiffyg seilwaith cymunedol.
- Mae angen trefniadau rhagnodi cymdeithasol.
- Mae angen grymuso pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.
- Mae angen cynyddu presenoldeb a chyfraniad yn y gymuned er mwyn lleihau stigma.
- Mae angen cefnogi a grymuso staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyffredinol.
- Mae angen i amgylcheddau cymunedol fod yn fwy hygyrch.

Gwasanaethau Cyffredinol a Mwy

Roedd cyfranogwyr yn dweud yn gyson nad oes gwasanaethau cyffredinol a mwy i'w cael ar hyn o bryd ac unwaith eto dyma'r rheswm pam mae pobl yn neidio i'r casgliad mai gwasanaeth arbenigol yw'r UNIG ateb.

Ymyrraeth Gynnar

Roedd materion ymyrraeth gynnar yn canolbwyntio'n gyson ar ymddygiad heriol a'r diffyg cymorth sydd i deuluoedd i'w helpu i reoli a lleihau ymddygiad o'r fath.

Cyfarfodydd gyda defnyddwyr gwasanaethau (Pobl yn gyntaf)

Hwylusodd Pobl yn Gyntaf sgysiau gyda defnyddwyr gwasanaethau am y Datganiad o Fwriad fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod mis Gorffennaf.

Daeth llawer o bobl i'r sesiynau hyn a defnyddiwyd y ddogfen 'hawdd i'w darllen' a gynhyrchwyd i gefnogi'r broses ymgysylltu.

Roedd y niferoedd a ddaeth i'r cyfarfodydd hyn fel a ganlyn

| | |
|----------|----|
| Merthyr | 18 |
| Rhondda | 8 |
| Taf Elái | 10 |

Canfyddiadau o'r cyfarfodydd gyda defnyddwyr gwasanaethau (Pobl yn Gyntaf)

Crynodeb o'r cyfarfodydd gyda defnyddwyr gwasanaethau, a drefnwyd gan Pobl yn Gyntaf, yw'r canfyddiadau hyn. Maent yn adlewyrchu strwythur pob cyfarfod ac yn nodi'r prif themâu a gofnodwyd yn y cofnodion. Mae cofnod manylach o bob cyfarfod ar gael ar gais.

Pan ofynnwyd a oedd y datganiad o fwriad yn mynd i'r afael â'r pethau pwysig iddyn nhw, dywedwyd yn benodol nad oedd yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Trafnidiaeth gan eu bod yn teimlo'n arbennig bod trafndiaeth yn allweddol i gefnogi mynediad i'r pethau roeddynt am eu gwneud
- Mynediad i lefydd i gefnogi pobl ag anableddau dysgu deimlo'n fwy o ran o'r gymuned a'u helpu i fod yn fwy annibynnol

Roedd y pethau a nodwyd fel pethau 'pwysig' iddyn nhw fel a ganlyn (crynodeb):

- Bwyta'n iach
- Cadw'n ffit a gallu ymarfer (cerdded, nofio, dawnsio, mynd i'r gampfa, siopa, pêl-droed, badminton, bowlio, Zumba)
- Gallu defnyddio TG a chyfathrebu ar-lein gyda ffrindiau
- Bod gyda phartneriaid, ffrindiau a theulu a chymdeithasu, mynd i lefydd gyda nhw
- Byw gyda'r teulu
- Dysgu a chynnal sgiliau newydd – garddio, celf a chrefft
- Gweithio/cael swydd

- Cael meddygon lleol da a gallu siarad yn hyderus gyda meddygon i ddweud sut rydych chi'n teimlo a'u cael nhw i wrando
- Bod yn actif
- Bod yn hapus
- Iechyd a llesiant teulu
- Cael seibiant a gwyliau

Nodwyd yn arbennig yn ystod y cyfarfodydd hyn bod angen rhoi blaenoriaeth i gyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i wasanaethau a'u bod am sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn llawn mewn unrhyw newid i ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.

Bocs awgrymiadau ar-lein

Crëwyd bocs awgrymiadau ar-lein ar Hyb Cwm Taf i gasglu safbwyntiau a myfyrdodau pobl ymhellach. Rhoddodd swyddogion y bartneriaeth gyhoedduswydd i'r cyfleuster ar-lein hwn yn eu meysydd gwasanaeth, gyda rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Rhoddwyd cyhoedduswydd iddo drwy'r sesiynau briffio rhanddeiliaid a'r grwpiau ffocws hefyd.

Roedd y cyfranogwyr a gofnododd eu safbwyntiau yn y bocs awgrymiadau ar-lein fel a ganlyn:

| | |
|---|----|
| Person ag anabledd dysgu | 1 |
| Gofalwr rhywun ag anabledd dysgu | 14 |
| Gweithiwr proffesiynol yn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu | 35 |
| Arall | 7 |
| Cyfanswm | 57 |

Canfyddiadau'r bocs awgrymiadau ar-lein

Mae'r canfyddiadau hyn yn grynoded o'r ymatebion a gofnodwyd yn yr holiadur ar-lein a oedd yn fyw rhwng mis Mai a mis Awst 2017. Mae cofnod manylach o'r ymateb ar-lein ar gael ar gais.

O'r rhai a gymerodd ran, dywedodd 90% eu bod yn teimlo bod y datganiad o fwriad yn cofnodi'r pethau sydd fwyaf pwysig iddyn nhw.

O'r rhai nad oedd yn cytuno, roedd eu sylwadau'n cyfeirio'n bennaf at y ffaith fod y ddogfen wedi'i hysgrifennu ar lefel uchel ac nad oedd yn cynnwys manylion am sut i'w roi ar waith.

Cyfeiriwyd yn benodol hefyd at y ffaith nad yw'r ddogfen ddrafft yn cyfeirio at Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2016 a'i oblygiadau.

Pan wahoddwyd cyfranogwyr i ddarparu sylwadau pellach am y datganiad o fwriad a'i gynnwys roedd y rhain yn cynnwys

- Cymorth i ddatblygu gwasanaethau cyffredinol
- Pryder am adnoddau ariannol i reoli cymorth lefel isel a gofal arbenigol
- Pwyslais ar geisiadau i wella cyfathrebu o ran ymgysylltu a darparu gwasanaethau

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn fwyaf pwysig i bobl ag anableddau dysgu fe nodwyd y canlynol

- Cael y gofal a'r cymorth priodol pan fo'u hangen
- Bod yn annibynnol
- Bod gyda ffrindiau a theulu
- Derbyn gofal
- Gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau yn y gymuned
- Bod yn actif a chymryd rhan mewn pethau newydd
- Cael cartref diogel a chyfforddus
- Gallu dysgu sgiliau newydd
- Iechyd a llesiant eu gofalwr/rhiant
- Cael cyngor a chymorth da i'w cadw'n iach
- Cael eu trin fel unigolyn sy'n cael ei barchu

Canlyniad y gweithgaredd ymgysylltu

Yn gyffredinol, mae'r Datganiad o Fwriad wedi derbyn cefnogaeth eang, yn arbennig y model gwasanaeth ar gyfer comisiynu bywyd cyffredin.

Rydym wedi clywed bod gallu cael gafael ar wasanaethau cyffredinol a chymunedol a gweithgareddau yn her i bobl ag anableddau dysgu ar hyn o bryd, a dywedodd defnyddwyr gwasanaethau'n arbennig eu bod yn wynebu anawsterau wrth geisio byw bywyd cyffredin yn y gymuned.

Rydym wedi nodi bod angen i ni barhau i edrych ar ba faterion sy'n bwysig i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd a'u cynnwys yn effeithiol wrth gynllunio'r gwasanaeth i'r dyfodol. Y rheswm am hyn yw y dylai ein dealltwriaeth o hygyrchedd i wasanaethau cyffredinol a chymunedol fod yn seiliedig ar brofiadau'r rhai sy'n ceisio eu defnyddio i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r prif heriau maent yn eu hwynebu.

Cynlluniwyd y Datganiad o Fwriad fel datganiad strategol i bartneriaid ei ddefnyddio fel fframwaith ar gyfer comisiynu a datblygu ymhellach ond roedd natur y ddogfen lefel uchel hon yn rhwystredig i rai gan eu bod yn awyddus i ddeall sut y bydd y newid yn cael effaith uniongyrchol arnyn nhw.

Neges gref gan yr holl gyfranogwyr oedd bod angen cyfathrebu'n fwy effeithiol gyda phobl a'u cynnwys mewn unrhyw newid a datblygiad a wneir i'r gwasanaeth.

I'r diben hwnnw, bydd y Grŵp Llywio Rhanbarthol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol Merthyr a Rhondda Cynon Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Pobl yn Gyntaf a grwpiau cymunedol y trydydd sector yn gyfrifol am sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i weithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaethau, rhieni sy'n gofalu, staff a rhanddeiliaid eraill yn ystod y camau nesaf.

Yn olaf, cyn cychwyn ar waith manylach i weithredu'r model newydd ac i gwblhau'r gwaith ar y datganiad gwirioneddol ei hun mae angen i ni ddiwygio'r drafft i gynnwys Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2016 a'i oblygiadau.

6. NODI EFFAITH GADARNHAOL A NEGyddOL BOSIBL

Cadarnhaol:

Y rhai sy'n elwa fwyaf yw pobl ag anableddau dysgu gan fod y Datganiad yn darparu ffocws cadarnhaol yn hytrach na gwahaniaethu'n negyddol ar sail eu hanabledd.

Fe fydd yna effaith gadarnhaol o ran newid diwylliant sy'n hyrwyddo annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol, mwy o ddewis a rheolaeth.

Bydd y model gwasanaeth arfaethedig (pum lefel rhyngberthynol) yn gwella canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol e.e. drwy gynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant a'r cyfleoedd i dargedu cymorth a gofal i'r rhai sydd angen cymorth mwy dwys. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ag anableddau dysgu lefel isel a'r rhai ag anghenion mwy cymhleth.

Mae'r pwyslais ar 'fywyd da' (*Rhywle i fyw, rhywbeth i'w wneud, rhywun i'w garu*) yn debygol o gael effaith fuddiol ar bobl ag anabledd dysgu gan roi mwy o ffocws ar ganlyniadau safon bywyd i bobl sy'n byw yn ein cymunedau.

Bydd y model yn annog datblygu mwy o gyfleoedd i fod ar gael mor lleol â phosibl, gartref neu o fewn cymunedau lleol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo hygyrchedd a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd, fel trafnidiaeth.

Gall gofal yn y cartref a'r gymuned leihau'r tarfu sy'n digwydd ar fywydau pobl. Gall fod yn haws diwallu anghenion ysbrydol a diwylliannol hefyd os yw pobl yn dal i fod yn rhan o'u cymuned ac unrhyw grwpiau maent yn perthyn iddynt. Gellir gwarchod preifatrwydd e.e. statws lesbiaidd, hoyw, deurywiol a theuluol, yn cynnwys statws priodasol a phartneriaeth sifil hefyd.

Bydd y cydgysylltiad gwell rhwng gwasanaethau fydd yn digwydd yn sgil y dull cydweithio rhwng partneriaid a datblygu'r Cyd-ddatganiad o Fwriad hwn yn sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu'n gallu cael gafael ar y gwasanaethau maent eu hangen yn y lle iawn ar yr adeg iawn, gan y person iawn.

Negyddol

Efallai y bydd yna effaith negyddol ar aelodau'r teulu/gofalwyr sy'n teimlo bod rhaid iddynt gymryd cyfrifoldebau ychwanegol a rôl ofalu di-dâl sylweddol. Gallai hyn gael effaith arbennig ar rai diwylliannau a/neu lle disgwylir yn draddodiadol i fenywod gyflawni'r rôl honno.

Fel y nodwyd yn adran 3 , mae Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf yn gweithredu Strategaeth Gofalwyr i gefnogi gofalwyr yng nghymunedau Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful ac mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi hawl gyfartal i ofalwyr gael eu hasesu gyda ffocws ar beth sy'n bwysig i'r unigolyn.

Yn ystod y gwaith ymgysylltu roedd hi'n amlwg bod pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn bryderus iawn am newidiadau i'w gwasanaethau ac yn bryderus i ymrwymo i fod yn rhan o unrhyw newid a allai gael effaith uniongyrchol ar eu bywyd bob dydd.

Bydd y grŵp llywio sy'n cydgysylltu gwaith i ymateb i'r datganiad o fwriad yn ceisio ymgysylltu â phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd gan roi sylw i gyfathrebu gwybodaeth a chyd-gynhyrchu atebion gyda'r rhai sydd â buddiant uniongyrchol yn y canlyniad.

Mae yna ddisgwyliad y bydd gwasanaethau cyffredinol a chymunedol addas ar gael i gefnogi pobl ag anableddau dysgu yn briodol yn y gymuned ond bydd hyn yn gofyn am adnoddau, yn arbennig o ran anghenion hyfforddiant a datblygu staff ar draws yr hol asiantaethau i sicrhau bod eu dealltwriaeth o anghenion cyfathrebu ac ymgysylltu penodol y grŵp hwn o bobl yn cael ei ddiwallu'n effeithiol.

Yn rhannol, bydd rhai o'r newidiadau sydd eu hangen i fodolau gwasanaeth traddodiadol yn creu arbedion a all gefnogi modelau gwasanaeth newydd; drwy ddefnyddio cyfleusterau priif ffrwd, er enghraifft. Yn ogystal, mae Grant Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar gael i gefnogi anghenion hyfforddi'r holl grwpiau staff ar draws y sefydliadau statudol ac annibynnol a sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol - mae dyraniad y grant yn dibynnu ar flaenoriaethau'r Bartneriaeth.

Yn gyffredinol, ystyrir y bydd manteision a geir o weithredu'r Cyd-Ddatganiad Comisiynu ar gyfer Anableddau Dysgu yn fwy nag unrhyw effeithiau negyddol. Byddwn yn mynd i'r afael â'r effeithiau negyddol posibl fel y nodwyd isod wrth weithredu'r Strategaeth.

7. CYNLLUNIAU AR GYFER LLINIARU UNRHYW EFFAITH NEGyddOL

Cymorth i ofalwyr

Datblygwyd Strategaeth Gofalwyr Cwm Taf, dogfen gynhwysfawr y cytunwyd arni'n ffurfiol ar gyfer y rhanbarth sy'n ymateb i'r materion mwyaf cyffredin a godwyd gan ofalwyr.

Ymgysylltu a chyfathrebu

Bydd y grŵp llywio sy'n goruchwylio'r camau nesaf yn cynnwys cynrychiolwyr partner, defnyddwyr gwasanaethau (hunaneiriolaeth) Pobl yn Gyntaf a gofalwyr. Bydd y grŵp hwn yn cytuno ar gynllun ymgysylltu o'r dechrau.

Pwrpas y cynllun ymgysylltu yw cael y grŵp i feddwl am sut i hysbysu a chynnwys rhanddeiliaid yn briodol ym mhob cam o ddatblygu'r achos busnes a gweithredu'r model cyflawni.

Bydd ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid yn cynnwys staff yn helpu i hwyluso'r broses o reoli newid. Bydd hefyd yn helpu i nodi a lleihau'r risg posibl o randdeiliaid yn peidio â chyfrannu at y newidiadau neu'n ymrwymo iddynt. Nid cynllun ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid i weld a ddylid cyflwyno unrhyw newidiadau ai peidio yw'r cynllun. Mae'r achos dros newid wedi'i dderbyn ac mae'r gwaith nawr yn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu'r atebion gorau i gyflawni'r weledigaeth a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Amcanion y cynllun ymgysylltu yw

- Sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r hyn rydym yn ei wneud a pham.
- Sicrhau bod dull system gyfan yn cael ei fabwysiadu ar gyfer yr agenda newid a bod rhannau unigol perthnasol y system yn deall eu cyfraniad at ei chyflawni.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cymaint o gyfleoedd â phosibl i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r newidiadau.
- Meithrin hygydedd ac ymddiriedaeth a chreu amgylchedd sy'n annog gweithredu agored a thrafodaeth ystyrion.
- Sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn gwybod beth sy'n digwydd, pryd a sut fydd hyn effeithio arny nhw.

Mae'r Datganiad o Fwriad hwn yn ddogfen lefel uchel nad yw'n manylu ar sut bydd y gwasanaeth yn newid ar lefel weithredol.

O ganlyniad, rhagwelir y bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig i bob newid arwyddocaol i wasanaeth a wneir o fewn gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu mewn perthynas ag Asesiad manylach o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

8. LLINIARU

Mae Asesiad effeithiol o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried safbwyntiau a barn y rhai a allai gael eu heffeithio a'r hyn a wyddom eisoes am sut allai'r polisi effeithio ar wahanol grwpiau. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth genedlaethol, gwybodaeth gan lechyd Cyhoeddus Cymru, data'r cyfrifiad, safbwyntiau'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau lle bo'n bosibl er mwyn nodi a mynd i'r afael â materion.

Mae ystyried mesurau lliniaru a ffyrdd gwahanol o wneud pethau yn ganolog i broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae gwahanol opsiynau wedi'u

hystyried wrth ddatblygu'r Datganiad o Fwriad, fel y nodwyd yn y ddogfen hon. Mae ystyried lliniaru effeithiau andwyol wedi'i blethu gydag ystyried pob cam gweithredu. Gall lliniaru fod ar ffurf lleihau difrifoldeb yr effaith andwyol.

Rydym wedi ystyried ffyrdd o ddarparu gwasanaethau sy'n cael llai o effaith andwyol ar y categori neu'r mater cydraddoldeb perthnasol, neu sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer y categori cydraddoldeb perthnasol.

Mae'r materion rhagarweiniol a'r achosion o liniaru posibl wedi'u rhestru yn gynharach yn y ddogfen hon a byddwn yn eu hailystyried wrth gytuno ar newidiadau i wasanaethau a'u datblygu. Mae'r ddogfen gychwynnol hon yn cynrychioli cam un o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

10. CRYNODEB – DYLETSWYDD GYFFREDINOL

Sylw dyledus i 3 elfen o'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymgais wirioneddol i fynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

A yw'r Datganiad o Fwriad hwn yn helpu i ddileu gwahaniaethu?

Ydy, er nad oes gwahaniaethu i'w weld yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd, bydd y symudiad i'r model newydd hwn sy'n cefnogi 'bywyd cyffredin' yn helpu i sicrhau'r canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd i:

- gael gafael ar wasanaethau modern sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn i'w cymuned leol ac o gael eu cynnwys yn y gymuned honno
- bod mor annibynnol â phosibl, lleihau dibyniaeth a phwysleisio dewis a rheolaeth
- cael gafael ar wasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n galluogi canlyniadau llesiant sy'n canolbwyntio ar y dinesydd
- gallu cael gafael ar wasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n lleihau'r posibilrwydd o anghenion a risgiau'n gwaethygu
- sicrhau mwy o breifatrwydd a gofal wedi'i bersonoleiddio sy'n diwallu eu hanghenion a'u ffordd o fyw.

A yw'r newid hwn i'r gwasanaethau'n helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal?

Ydy, dylai'r model hwn o ddarparu gwasanaethau wella'r cynnig gwasanaethau i bawb sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd, gan gefnogi bywyd cyffredin yn ein cymunedau.

A yw'r newid hwn i'r gwasanaethau'n helpu i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sydd â nodwedd warchoddedig a'r rhai sydd heb nodwedd warchoddedig?

Ydy, rydym wedi ystyried y boblogaeth gyfan, o'r crud i'r bedd, ac wedi edrych yn arbennig ar anghenion pobl hŷn ag anabledd dysgu a'u gofawyr i

gydnabod eu hanghenion penodol, yn enwedig gan fod pobl yn byw'n hirach gydag anghenion gofal mwy cymhleth yn y gymuned erbyn hyn.

Pan godwyd pryderon am gydraddoldeb fe nodwyd y rhain a'u hystyried er mwyn gweld cyfleoedd i liniaru ac i osgoi gwahaniaethu'n erbyn unrhyw grwpiau penodol ac i hyrwyddo mynediad cyfartal at wasanaethau. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â gwahanol grwpiau mewn perthynas â defnyddio cyfryngau priodol, fforymau a thrwy adeiladu ar gysylltiadau cyfredol.

Mae cyfansoddiad y boblogaeth leol (gwybodaeth Cyfrifiad 2011 ac Iechyd Cyhoeddus) wedi'i ddadansoddi a materion wedi'u hystyried.

11. TREFNIADAU MONITRO

Bydd effaith y datganiad o fwriad hwn yn cael ei monitro'n agos a byddwn yn parhau i roi ystyriaeth ofalus i'r pwyntiau a godwyd yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

Ymhellach, ac fel y nodwyd uchod, bydd newidiadau penodol i wasanaethau sy'n deillio o'n hymrwymiad i'r datganiad lefel uchel hwn yn gofyn am asesiad cynhwysfawr pellach o'r effaith ar gydraddoldeb ac felly, rydym yn ystyried mai cam cyntaf yw'r asesiad hwn.